OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 633

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023

## RHAN 4

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

#### PENNOD 1

#### Cyflwyniad

**8.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

#### PENNOD 2

#### Diwygiadau i ddarpariaethau terfynu cymhwystra yn gynnar

**9.** Yn rheoliad 4, ar ôl paragraff (11) mewnosoder—

"(11A) Nid yw paragraffau (9), (9A), (9B), (10), (10A), (10B), (10C), (10D), (10E) na (10F) yn gymwys pan, ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi—

(a) bo A; neu

(b) bo'r person a achosodd, o ganlyniad i'w statws mewnfudo, i A fod yn fyfyriwr cymwys neu'n fyfyriwr cymhwysol,

yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd Gwyddelig.".

**10.** Yn rheoliad 81, ar ôl paragraff (10F) mewnosoder—

"(10G) Nid yw paragraffau (9), (9A), (9B), (10), (10A), (10B), (10C), (10D), (10E) na (10F) yn gymwys pan, ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi—

(a) bo A; neu

(b) bo'r person a achosodd, o ganlyniad i'w statws mewnfudo, i A fod yn fyfyriwr rhan-amser cymwys,

yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd Gwyddelig.".

**11.** Yn rheoliad 110, ar ôl paragraff (12F) mewnosoder—

"(12G) Nid yw paragraffau (11), (11A), (11B), (12), (12A), (12B), (12C), (12D), (12E) na (12F) yn gymwys pan, ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi—

(a) bo A; neu

(**1**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2021/9 (Cy. 4), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/79 (Cy. 28) ac O.S. 2022/764 (Cy. 166). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(b) bo’r person a achosodd, o ganlyniad i’w statws mewnfudo, i A fod yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys,

yn ddinesydd Prydeinig neu’n ddinesydd Gwyddelig.”.